

Adroddiad Monitro Blynyddol

Yr Iaith Gymraeg

2018/19

national
museum
wales
amgueddfa
cymru

Cynnwys

1.	Trosolwg.....	3
2.	Cyngor polisi a chyfieithu.....	4
3.	Y safonau iaith yng ngwaith yr Amgueddfa.....	5
4.	Cyflenwi Gwasanaethau (safonau 1-83 a safonau atodol 149-154).....	5
4.1.	Gohebiaeth ysgrifenedig.....	5
4.2.	Cysylltu dros y ffôn.....	5
4.3.	Cyfarfodydd.....	6
4.4.	Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir gan Amgueddfa Cymru.....	6
4.5.	Deunydd print a gynhyrchir gan Amgueddfa Cymru.....	8
4.6.	Y wefan, deunyddiau digidol a chyfryngau cymdeithasol.....	9
4.7.	Derbynfeydd.....	9
4.8.	Tendro.....	10
5.	Llunio polisi (safonau 84-93 a safonau atodol 155-160).....	10
5.1.	Cyfrifoldeb.....	10
5.2.	Llunio, adolygu neu addasu polisi.....	10
5.3.	Comisiynu neu wneud gwaith ymchwil.....	10
6.	Gweithredu (safonau 94-140 a safonau atodol 161-166).....	10
6.1.	Darparu dogfennau dwyieithog.....	11
6.2.	Cwynion mewnol a gweithdrefnau disgyblu.....	11
6.3.	Meddalwedd TGCh.....	11
6.4.	Y Fewnrwyd a Stôr.....	12
6.5.	Gwersi Cymraeg ac ymwybyddiaeth iaith.....	12
6.5.1.	Hyfforddiant ffurfiol.....	12
6.5.2.	Hyfforddiant anffurfiol.....	13
6.6.	Recriwtio.....	13
7.	Cadw cofnodion (safonau 141-148 a safonau atodol 167-168).....	14
7.1.	Asesu sgiliau iaith staff.....	14
7.2.	Cyrsiau hyfforddi.....	14
7.3.	Datrys cwynion.....	15
7.3.1.	Cwynion gan y cyhoedd.....	15
7.3.2.	Cwynion at y Comisiynydd Iaith ac ymchwiliadau gan y Comisiynydd Iaith.....	15
8.	Casgliad.....	16

1. Trosolwg

Ers 2016 mae dyletswydd gyfreithiol ar Amgueddfa Cymru i gydymffurfio â rhestr o safonau iaith sy'n cwmpasu pedwar maes, sef Cyflenwi gwasanaethau, Llundio polisi, Gweithredu a Chadw cofnodion. Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio, ein Polisi Iaith (sy'n seiliedig ar y safonau hyn), a'n cynlluniau iaith blaenorol, i'w cael ar ein gwefan www.amgueddfa.cymru/ygymraeg. Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â'r gofynion a nodir yn y safonau.

Rydym yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnal gwasanaeth cwbl ddwyieithog i'r cyhoedd. Mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o dreftadaeth a diwylliant Cymru, felly mae gan yr Amgueddfa ran allweddol i'w chwarae wrth feithrin ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru a'i defnyddio a'i dathlu wrth ein gwaith beunyddiol. Rydym yn falch iawn o'r gwaith ehangach a wnawn er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, ei hybu a'i hyrwyddo, yn ogystal â'n datblygiadau ym maes dehongli a dylunio dwyieithog. Mae'r Gymraeg wedi'i phrif-frydio yn ein Gweledigaeth gorfforaethol, 'ysbrydoli pobl, newid bywydau'.

Ymhlith uchafbwyntiau ein Cynllun Gweithredu 2018-20, mae'r canlynol:

- Rhoi system gofrestru a chof cyfieithu Cyfieithu Cymru ar waith ar draws y corff
- Treialu teithiau realiti estynedig tairieithog newydd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, yr Amgueddfa gyntaf yn y DU i ddefnyddio'r cyfuniad hwn o dechnoleg
- Cynnal Ar Lafar, gŵyl i ddysgwyr, a lansio Llwybrau Llafar, pecyn newydd o adnoddau i ddysgwyr mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- Adolygu darpariaeth dysgu Cymraeg ffurfiol Amgueddfa Cymru i staff a chynyddu'r ddarpariaeth gefnogol anffurfiol
- Cynyddu nifer y staff sy'n meddu ar sgiliau iaith, gyda 53% o'r gweithlu sefydlog bellach yn meddu ar sgiliau lefel Mynediad i Hyfedredd
- Agor orielau newydd Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru gan gynnwys gwaith arloesol ar ddehongli a dylunio dwyieithog.

Derbyniwyd tair cwyn ynghylch cydymffurfiaeth â'r safonau iaith yn 2018/19 yn ymwneud â dylunio dwyieithog, gwasanaeth gan drydydd parti a gwasanaeth yn un o'n siopau. Atebwyd y cwynion a chadwyd cofnod o'r camau yr ydym wedi eu cymryd i ddatrys y cwynion hyn.

Ym mis Tachwedd 2017, derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ynghylch methiant honedig i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn ymwneud â gweithdy i blant a gynhaliwyd yn uniaith Saesneg. Oherwydd salwch, nid oedd yr aelod dwyieithog o staff penodedig ar gael i gynnal y gweithdy ar y diwrnod a chafodd ei gynnal gan aelod arall o staff. Cynhaliwyd ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac ym mis Hydref 2018, dyfarnwyd y methwyd â chydymffurfio â Safon 32 a Safon 80. Rhoddwyd nifer o gamau gweithredu ar waith gan gynnwys newidiadau i strwythur staffio hwyluswyr; cyhoeddi canllawiau cydymffurfio i staff (gan gynnwys trefniadau newydd os bydd aelod o staff yn sâl); adolygu ein rhaglen gyhoeddus ac addasu ein dulliau hysbysebu digwyddiadau a darpariaeth addysg. Cyflwynwyd ein tystiolaeth o weithredu yn unol â'r amserlen ar 1 Chwefror 2019. Nid ydym wedi derbyn gwybodaeth bellach gan y Comisiynydd.

Grŵp Monitro'r Iaith Gymraeg, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu a rheolaeth Cydlynnydd y Gymraeg, sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth Amgueddfa Cymru â'r safonau iaith ac adolygu'r gwaith o roi ein Polisi Iaith ar waith ar draws y corff. Mae'r grŵp yn cwrdd yn chwarterol gan adrodd i'r Uwch Dîm Rheoli a'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad.

2. Cyngor polisi a chyfieithu

Mae gan Amgueddfa Cymru dîm cyfieithu mewnol sy'n darparu gwasanaethau cyfieithu Cymraeg i Saesneg a Saesneg i Gymraeg, drafftio ochr yn ochr, gwasanaeth golygu, gwasanaeth gwirio gwaith cydweithwyr, gwasanaeth prawfddarllen, geirfa ar-lein, ac yn cynghori ar gynnwys a dylunio dwyieithog. Rydym hefyd yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu papur a chyfieithu ar y pryd gan gwmnïau preifat yn ôl y galw.

Ym mis Mawrth 2019 trosglwyddwyd i system gof a gweinyddu Cyfieithu Cymru. Dyma becyn cwmwl a ddatblygwyd gan Ganolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor. Mae'r system yn galluogi gweinyddu a chyfieithu mwy effeithlon yn electronig.

Mae Cydlynnydd y Gymraeg yn cynnig arweiniad a chyngor i staff yr Amgueddfa ar faterion sy'n ymwneud a'r iaith Gymraeg, cyfieithu â chydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

Eleni cyflwynwyd ymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Cynulliad ar y Gymraeg a chyfrannwyd at ddatblygiad diogelwr taith nod llesiant y Gymraeg Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a fydd yn cael ei lansio yn Eisteddfod Genedlaethol 2019. Cymerwyd rhan mewn digwyddiadau polisi iaith e.e. panel drafod Cymraeg Byd Busnes, cyfarfod gyda Gweinidog y Gymraeg a swyddogion Cymraeg 2050 ar ddyfodol seilwaith y Gymraeg a chynhadledd Technoleg a'r Gymraeg Prifysgol Bangor. Yn rhan o waith Comisiynydd y Gymraeg ar greu canllawiau i ddenu gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg, cyfrannodd ein Cydlynnydd Gwirfoddoli gyngor a mewnbwn ymarferol am faes recriwtio gwirfoddolwyr.

3. Y safonau iaith yng ngwaith yr Amgueddfa

Mae'r safonau iaith wedi'u rhannu'n 5 dosbarth:

- Cyflenwi gwasanaethau
- Llunio polisi
- Gweithredu
- Cadw cofnodion
- Hybu¹

At ddibenion yr adroddiad hwn, lle bo ein gwaith yn pontio anghenion gwahanol safonau, adroddir arnynt yn y man y tybiwn sydd fwyaf perthnasol.

4. Cyflenwi Gwasanaethau (safonau 1-83 a safonau atodol 149-154)

4.1. Gohebiaeth ysgrifenedig

Mae'r templedi llythyron, ein gwefan a negeseuon awtomatig e-byst yn cynnwys geiriad safonol ynghylch croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.

Ceir arwydd iaith Gwaith ym mhob derbynfa ac mae staff dwyieithog ar gael wrth bob derbynfa. Mae rheffynnau a bathodynau iaith Gwaith ac iaith Gwaith/Dysgwr ar gael i'r holl staff ac rydym yn annog eu defnydd lle bynnag posibl.

Hysbysir pob aelod o staff newydd am yr angen i sicrhau llofnod e-bost a neges peiriant ateb dwyieithog yn y sesiwn gynefino orfodol, yn rhan o gyflwyniad ehangach am y Gymraeg a'r safonau yn Amgueddfa Cymru.

Mae unrhyw eiriad safonol a ddefnyddir hefyd ar gael yn ein Geirfa ar-lein www.amgueddfa.cymru/geirfa sydd ar gael i'n staff a'r cyhoedd.

4.2. Cysylltu dros y ffôn

Mae staff sy'n ateb prif linell ffôn Amgueddfa Cymru yn ateb galwadau ffôn yn ddwyieithog (yn Gymraeg yn gyntaf ac yna'n Saesneg) gan hysbysu'r galwr bod modd cael gwasanaeth Gymraeg. Gellir gwirio dewis iaith aelodau staff y cyfeirir yn alwad atynt ar y Fewnrwyd hefyd.

¹ Ni chafodd safonau'r categori hwn eu gosod ar Amgueddfa Cymru. Fodd bynnag, mae hybu a hyrwyddo'r gwasanaethau Gymraeg a dwyieithog a gynigiwn a dathlu defnydd a datblygiad yr iaith yn rhan annatod o'n gwaith.

Mae negeseuon electronig prif linell ffôn yr Amgueddfa yn cyfarch y galwr yn ddwyieithog (yn Gymraeg yn gyntaf ac yna'n Saesneg) ac yn hysbysu'r galwr y caiff adael neges yn Gymraeg. Pan fyddwn yn ffonio unrhyw unigolyn am y tro cyntaf, byddwn yn gofyn a yw'r unigolyn yn dymuno derbyn galwadau ffôn gennym yn Gymraeg. Os dyna ddymuniad yr unigolyn, cedwir cofnod o'i ddymuniad. Mae trefniadau adrannol ar waith ar draws Amgueddfa Cymru ar gyfer hyn.

4.3. Cyfarfodydd

Mae cyfieithu ar y pryd ar gael yn holl gyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae canllawiau i Gadeiryddion ar gael ynghyd â geiriad safonol, sy'n seiliedig ar ganllawiau cyfieithu ar y pryd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a *Dogfen Cyngor: Drafftio Dwyieithog, Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd* y Comisiynydd Iaith.

Rydym yn creu cyfleoedd i ddefnyddio cyfieithu ar y pryd fel dull o gynyddu ein defnydd mewnol o'r Gymraeg. Er enghraifft, darperir cyfieithu ar y pryd yn holl gyfarfodydd Grŵp Monitro'r Iaith Gymraeg. Cafodd system isgoch ei chynnwys yn Narlithfa newydd Sain Ffagan ac eleni buddsoddwyd mewn rhagor o glustffonau a derbynyddion. Eleni hefyd, rydym wedi gwneud defnydd o gyfieithu ar y pryd wrth weithio ar broiect aml-safle. Defnyddir fideogynadledda a chyfieithu ar y pryd rhwng gwahanol amgueddfeydd er mwyn hwyluso cyfarfodydd dwyieithog rheolaidd.

Lle bo cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Gymraeg ar draws y corff a bod gofyn adrodd am y cynnwys i'r Uwch Dîm Rheoli, caiff y cofnodion eu llunio yn Gymraeg a chaiff trosolwg Saesneg ei ddarparu i'r Uwch Dîm Rheoli.

Datblygiadau sydd ar y gweill:

Mae adran Mentrau'r Amgueddfa yn datblygu pecyn hyrwyddo a llogi ar gyfer yr offer cyfieithu ar y pryd yn Narlithfa Sain Ffagan yn rhan o'n harlwy llogi corfforaethol.

4.4. Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir gan Amgueddfa Cymru

Eleni rydym wedi adolygu ein rhaglen gyhoeddus a chynhyrchu canllawiau newydd ynghylch defnydd y Gymraeg mewn digwyddiadau cyhoeddus ac addysgol. Cyhoeddwyd y canllawiau ar ein Mewnrwyd a chynhaliwyd sesiynau hyfforddi i staff.

Rydym yn annog a chefnogi defnyddio a dathlu'r Gymraeg trwy lawer o ddigwyddiadau cyhoeddus, gan gynnwys y canlynol:

- Mewn partneriaeth â'r Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg:
 - Ym mis Ebrill 2018 daeth dros 670 o ddysgwyr i fwynhau Gŵyl Ar Lafar yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Amgueddfa Lechi Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth. Trefnwyd digwyddiadau'r Wyl ar y cyd â Menter Iaith a'r Mudiad Meithrin.

- Ym mis Awst yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd 2018, lanswyd Llwybrau Llafar, adnodd aml-lefel sy'n galluogi dysgwyr i ddefnyddio Sain Ffagan fel lleoliad i ddysgu Cymraeg.
- Yn Sain Ffagan ac yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau cynhaliwyd dosbarthiadau dysgu Cymraeg ffurfiol ar y cyd a cholegau lleol.
- Ym mhob Amgueddfa cynhaliwyd rhaglenni i deuluoedd sydd am ddysgu a defnyddio'u Cymraeg ar y cyd â cholegau a mentrau iaith lleol. Er enghraifft cyfarfu Cymraeg i Blant Ti a Fi yn wythnosol yn Sain Ffagan, cynhaliwyd Paned a Phapur ddwywaith y mis yn Amgueddfa Wlân Cymru ac yn fisol cynhaliwyd Taith Iaith yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.
- Mewn partneriaeth â Heneiddio'n Dda yng Nghymru rydym wedi datblygu sesiynau Cymraeg i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia, er enghraifft sesiynau peilot yng nghartref gofal Tŷ Enfys yng Nghaerdydd.
- Mewn partneriaeth a darparwyd cwrs cynradd Tystysgrif Addysg i Raddedigion trafodwyd y ddarpariaeth Gymraeg i ysgolion cynradd gan gynnwys adnoddau a rhaglenni fydd yn rhan o'r cwricwlwm newydd.

Datblygiadau sydd ar y gweill:

Mae'r Adran Addysg yn gweithio gyda menter CAMPUS a'r Siarter Iaith a drefnir gan Gonsortium Canolbarth y De y Gwasanaeth Addysg ar y Cyd, sy'n gweithio i hybu defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Rydym yn gweithio ar adnoddau dwyieithog i gyd-fynd â rhai o'n gweithdai i ysgolion. Bwriedir cynnal gŵyl i ddathlu'r Gymraeg ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn 2019 a chreu adnoddau newydd yn rhan o'r Siarter Iaith i annog ysgolion Saesneg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymweld â Sain Ffagan.

- Cynhaliwyd perfformiadau Cymraeg yn rhan o'r rhaglen gyhoeddus. Er enghraifft cynhaliwyd nifer o gigs gan fandiau Cymraeg yn ein hamgueddfeydd, gan gynnwys gig Candelas yn Amgueddfa Lechi Cymru ar y cyd â mudiad Kids in Museums a gig gan Colorama, Plu a Bendith ar y cyd â Gŵyl Sŵn yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Cefnogwyd Gŵyl Hanes Cymru i Blant ym mis Medi yn Sain Ffagan; ac yn Amgueddfa Wlân Cymru gweithiwyd gyda chwmini theatr Mewn Cymeriad i gomisiynu drama newydd yn seiliedig ar ddiwydiant gwlan Cymru.
- Mae pob arddangosfa a gynhyrchir yn fewnol yn ddwyieithog. Arddangosfa fawr Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn ystod haf 2018 oedd *Kizuna: Japan | Cymru | Dylunio*. Roedd hon yn arddangosfa dairieithog, Cymraeg, Japaneg a Saesneg. Yn yr arddangosfa a'r lansiad, roedd y Gymraeg yn amlwg ar y llwyfan rhyngwladol. Yn rhan o'r ymgyrch farchnata, cafwyd negeseuon tairieithog ar y cyfryngau cymdeithasol, ac am y tro cyntaf, clywyd y Gymraeg ar donfeddi gorsaf radio Classic FM.
- Rhan greiddiol o broiect ailddatblygu Sain Ffagan, a gwblhawyd ym mis Hydref 2018, oedd arbrofi â dulliau dehongli dwyieithog. Roedd hyn yn cynnwys drafftio testun Cymraeg a Saesneg ochr yn ochr yn hytrach na chyfieithu o'r naill iaith i'r llall a sicrhau y defnyddiwyd ffynonellau gwreiddiol yn y ddwy iaith. Bydd y gwaith o werthuso'r broiect yn ei gyfanrwydd yn cynnwys asesu llwyddiant y gwaith a

rhannu'r canfyddiadau am ddulliau dehongli â gweddill y corff a thu hwnt. Crëwyd deunydd dehongli i gefnogi dysgwyr hefyd.

Datblygiadau sydd ar y gweill:

Ym mis Medi 2019, bydd Gŵyl Fwyd Sain Ffagan yn dathlu deng mlynedd ers ei sefydlu. Yn rhan o'r dathliadau, rydym wedi sefydlu partneriaeth newydd gyda Tafwyl a byddwn yn parhau i weithio gyda Swyddog Cymraeg Byd Busnes Caerdydd a Bro Morgannwg i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhlith darparwyr preifat sy'n cymryd rhan yn ein digwyddiadau cyhoeddus.

Nid yw'n ofynnol i ni gyfieithu arddangosfeydd dros dro allanol sy'n cael eu cynnal yn ein hamgueddfeydd. Serch hynny, rydym wedi ymrwmo i addasu'r cynnwys i gynulleidfaoedd Cymraeg lle bynnag posibl. Wrth wneud hyn, rydym yn arbrofi â dulliau dehongli dwyieithog a byddwn yn gwerthuso eu heffaith yn ôl y galw. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at ein dealltwriaeth ac arferion ym maes dehongli a dylunio dwyieithog. Enghraifft ddiweddar o gydweithio llwyddiannus â phartneriaid allanol ar arddangosfeydd oedd arddangosfa *Leonardo Da Vinci: Dyn y Darluniau*, agorodd yr arddangosfa gwbl ddwyieithog yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ym mis Chwefror 2019.

Datblygiadau sydd ar y gweill:

Bydd ein gwaith yn y maes o addasu a datblygu arddangosfeydd uniaith Saesneg yn rhai dwyieithog yn parhau dros y flwyddyn nesaf. Ymhlith y projectau sydd ar y gweill mae *Dippy ar Daith*, taith sgerbwd deinosor anferth o'r Amgueddfa Hanes Natur yn Llundain i leoliadau ar draws Prydain, gan gynnwys Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

4.5. Deunydd print a gynhyrchir gan Amgueddfa Cymru

Mae dwyieithrwydd yn rhan annatod o frand a gwaith dylunio'r Amgueddfa ym mhob agwedd ar ein gwaith. Yn unol â chanllawiau brand yr Amgueddfa, mae'r Gymraeg yn cael ei gosod uwchben y Saesneg neu i'r chwith i'r Saesneg.

Mae arwyddion a hysbysiadau'r Amgueddfa (gan gynnwys rhai dros dro) yn ddwyieithog. Mae'r tîm Cyfieithu a'r laith Gymraeg ar gael i gynghori ynghylch sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a hysbysiadau yn gywir o ran ystyr a mynegiant ac mae'r eirfa ar-lein hefyd yn ffynhonnell ddefnyddiol sydd ar gael i staff a'r cyhoedd fel ei gilydd. Mae'r tîm Cyfieithu a'r laith Gymraeg hefyd yn cynnig gwasanaeth gwirio ac adborth er mwyn cynorthwyo staff sydd am fagu hyder i ysgrifennu yn Gymraeg.

Ymhlith y deunydd a gyhoeddwyd eleni roedd catalog tairieithog i gyd-fynd ag arddangosfa *Kizuna: Japan | Cymru | Dylunio*, a llawlyfr dwyieithog ar gyfer Sain Ffagan. Rydym yn diweddarau paneli dehongli Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru ar gyfer ailagor yr Amgueddfa, yn unol â chanllawiau brand a dylunio.

4.6. Y wefan, deunyddiau digidol a chyfryngau cymdeithasol

Mae holl dudalennau'r wefan yn cynnwys dolen uniongyrchol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg gan ddilyn yr egwyddor o adeiladu ein gwefannau i greu tudalennau sy'n ddrych o'i gilydd.

Cyhoeddir polisïau, strategaethau, adroddiadau a chynlluniau blynyddol, canllawiau, a datganiadau i'r wasg ar ein gwefan yn ddwyieithog.

Mae ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol yn ddwyieithog, gyda chydbwysedd rhwng cynnwys Cymraeg a Saesneg. Yn ogystal â'r cyfrifon corfforaethol dwyieithog sydd gennym, rydym hefyd yn cynnal cyfrif Twitter @IaithAmgueddfa sy'n trydar am wahanol agweddau ar ein gwaith, o ddylunio dwyieithog i gyfieithu i ddysgu ieithoedd, gan ddathlu llwyddiannau ein dysgwyr gyda'r hashnod #dysgwyrdisglair.

Dyma flas ar uchafbwyntiau'r maes digidol eleni:

- Treialwyd teithiau realiti estynedig yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, gyda thair antur mewn tair iaith (Cymraeg, Saesneg a Japaneg) sef Antur Lilïau Dŵr Enwog Monet, Antur y Deinosauriaid a'r Creaduriaid Cynhanesyddol ac Antur Dan y Môr a'i Donnau.
- Mae Rhithdaith Google, sef Google Expedition, bellach ar gael yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru. Dyma'r rithdaith Gymraeg gyntaf i Google ei chyhoeddi. Cafodd ei chreu trwy gydweithio ag adran Celfyddydau a Diwylliant Google ac mae'r rhithdaith yn rhoi blas ar grwydro danddaear yn Big Pit. Mae'r gwaith eisoes wedi cychwyn ar rithdaith arall ar gyfer Sain Ffagan.
- Rydym yn parhau i gynnal gwefan Casgliad y Werin Cymru gyda phartneriaid strategol eraill, gan gyhoeddi adnoddau, erthyglau a chynnwys dwyieithog newydd.
- Eleni, yn dilyn cyhoeddi adnoddau iLyfrau newydd sbon ar ein gwefan, gwelwyd 31% o gynnydd yn y nifer o ymweliadau â thudalennau Cymraeg adran addysg ein gwefan. Rydym hefyd yn cyfrannu adnoddau addysg dwyieithog at Hwb, platfform adnoddau addysg digidol sydd â 300,000 o ddefnyddwyr ac mewn defnydd mewn 85% o ysgolion.

Datblygiadau sydd ar y gweill:

Rydym yn cyfrannu at broiect ymchwil 'One by One' Prifysgol Caerlŷr a Culture24 sydd yn archwilio llythrennedd ddigidol ar draws amgueddfeydd y DU. Pennwyd bod dwyieithrwydd yn faes allweddol ar gyfer amgueddfeydd yng Nghymru.

4.7. Derbynfeydd

Mae pob derbynfa gyhoeddus yn arddangos arwydd sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i ymwelwyr ddefnyddio'r Gymraeg ac arwydd Iaith Gwaith. Mae staff sy'n

gweithio wrth ddesgiau gwybodaeth/derbynfeydd sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg neu sy'n dysgu Cymraeg yn gwisgo rheffyn neu fathodyn sy'n cyfleu hynny.

4.8. Tendo

Mewn achosion lle mae pwnc y gwahoddiad i dendro yn cynnwys yr angen i'r gwaith gael ei gynhyrchu yn Gymraeg neu pan mae cynulleidfa yn disgwyl cael y gwaith yn Gymraeg, rydym yn cyhoeddi tendr yn Gymraeg a Saesneg.

Mae'r swyddog tendrau wedi derbyn briff manwl ynghylch y Gymraeg a thendrau (yn ogystal â'r cyflwyniad cyffredinol i staff am y safonau). Mae'r swyddog hwn a Chydlynnydd y Gymraeg ar gael i gynghori swyddogion sy'n paratoi tendrau.

Pan fyddwn yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, byddwn yn nodi y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg.

5. Llunio polisi (safonau 84-93 a safonau atodol 155-160)

5.1. Cyfrifoldeb

Mae cyfrifoldeb am y Gymraeg a pholisi wedi ei osod ar lefel Gyfarwyddiaeth yr Amgueddfa. Mae unrhyw drafodaethau parthed effaith polisiâu neu strategaethau corfforaethol ar yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o broses benderfyniadau Tîm Rheoli Amgueddfa Cymru.

5.2. Llunio, adolygu neu addasu polisi

Wrth lunio polisi newydd, neu wrth adolygu neu addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rydym yn ystyried effeithiau'r penderfyniad sydd ynghlwm â'r polisi ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym yn ystyried sut y gallwn wneud penderfyniad polisi sy'n cael effaith positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac rydym yn sicrhau nad ydym yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Eleni, er enghraifft, lluniwyd Strategaeth Datblygu Pobl sy'n cefnogi cyfleoedd i'n staff ddysgu Cymraeg a datblygwyd Strategaeth Profiad Ymwelwyr gyda'r Gymraeg yn rhan greiddiol o'r Siarter Ymwelwyr.

5.3. Comisiynu neu wneud gwaith ymchwil

Wrth gomisiynu neu wneud gwaith ymchwil fydd yn sail i benderfyniadau polisi, byddwn yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol.

6. Gweithredu (safonau 94-140 a safonau atodol 161-166)

6.1. Darparu dogfennau dwyieithog

Mae'r Amgueddfa'n darparu'r dogfennau canlynol yn ddwyieithog i'r staff:

- contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau
- unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â chyflogaeth
- unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion hyfforddiant, amcanion perfformiad a/neu gynllun gyrfa
- ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi oriau gwaith hyblyg (cofnodir gwyliau ac absenoldebau o'r gwaith ar system electronig CIPHR)
- ein holl bolisiâu gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, y canlynol:
 - ymddygiad yn y gweithle
 - iechyd a lles yn y gweithle
 - cyflogau neu fuddion yn y gweithle
 - rheoli perfformiad
 - absenoldeb o'r gwaith
 - amodau gwaith
 - patrymau gwaith.

Datblygiadau sydd ar y gweill:

Mae'r Adran Adnoddau Dynol yn gweithio gyda chwmni allanol Linguaskin er mwyn addasu ein meddalwedd adnoddau dynol electronig i fod ar gael yn ddwyieithog. Mae'r feddalwedd yn caniatáu i aelodau staff ddiweddarau eu manylion personol, gwyliau a salwch eu hunain yn electronig.

6.2. Cwynion mewnol a gweithdrefnau disgyblu

Mae proses gwynion a disgyblu'r Amgueddfa yn caniatáu i bob aelod o staff gyflwyno cwyn neu ymateb i unrhyw gŵyn neu honiad a wnaed amdano yn Gymraeg, cynnal cyfarfodydd neu achosion disgyblu, ac unrhyw ganlyniadau neu benderfyniadau sy'n deillio o hyn, yn Gymraeg.

6.3. Meddalwedd TGCh

Mae'r Amgueddfa'n darparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'r staff, ac yn darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael).

Mae Mewnrwyd yr Amgueddfa ar gael yn Gymraeg a Saesneg a cheir dolen uniongyrchol ar bob dalen i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.

Fel y nodwyd eisoes, eleni dechreuwyd defnyddio system gof a weinyddu Cyfieithu Cymru sy'n galluogi'r cyfieithwyr i weinyddu ceisiadau'n electronig a'u cyfieithu mewn cof cyfieithu.

6.4. Y Fewnrwyd a Stôr

Cafodd y Fewnrwyd ei datblygu'n fewnol ac mae wedi'i chreu i fod yn gwbl ddwyieithog. Adolygwyd yr holl gynnwys ar ein Mewnrwyd ddwyieithog gyda'r diben o fireinio'r cynnwys sydd yno a sicrhau fod yr holl gynnwys yn ddiweddar ac yn ddwyieithog. Mae hyn yn cwmpasu ffurflenni, dogfennau cynorthwyol cyllid, y llawlyfr staff, systemau a thempledi mewnol. Law yn llaw â'r gwaith hwn, rydym yn gweithio ar ryngwyneb ein system storio dogfennau newydd, Stôr, er mwyn sicrhau y bydd modd ei defnyddio yn Gymraeg ac yr ystyrir y Gymraeg wrth ddylunio'r ffwythiannau.

Mae gennym system electronig ar gyfer anfon negeseuon i'r holl staff o'r enw Sgwrs ac mae'r negeseuon a anfonir yn ddwyieithog.

Datblygiadau sydd ar y gweill:

Rydym yn datblygu'r adran gyfredol am y Gymraeg ar ein Mewnrwyd. Ar ei newydd wedd, bydd yn cynnwys rhagor o fanylion am y safonau a chanllawiau cydymffurfio a gwybodaeth am hyfforddiant ac arfer da.

6.5. Gwersi Cymraeg ac ymwybyddiaeth iaith

Rydym yn cynnig nifer o wahanol fathau o hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol am ddim ac o fewn oriau gwaith er mwyn cynorthwyo ein staff i ddysgu a defnyddio eu Cymraeg.

6.5.1. Hyfforddiant ffurfiol

Dyma nifer y staff a gwblhaodd hyfforddiant dysgu Cymraeg ffurfiol yn 2018/19:

Lefel	Nifer
Cwrs Croeso (10 awr ar-lein)	4
Mynediad	7
Sylfaen	1
Canolradd	7
Cyfanswm	15

Rydym yn aelod o gynllun y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Cymraeg Gwaith, ac yn y broses o sefydlu nifer o gyrsiau ar wahanol lefelau i staff. Er mwyn gallu gwneud newidiadau effeithiol i'n harlwy dysgu Cymraeg i staff, mae'r adran Adnoddau Dynol yn adolygu'r ddarpariaeth ffurfiol ac anffurfiol ar draws y safleoedd a chynhaliwyd holiadur agored i'r holl staff am eu profiadau ac anghenion dysgu. Bydd y pecyn dysgu Cymraeg ar ei newydd wedd yn cynnig yr amrywiaeth eang o gyfleoedd a gynigir trwy Cymraeg Gwaith, yn ogystal ag arlwy anffurfiol ar draws y safleoedd.

Rydym hefyd wedi datblygu dogfen datblygu sgiliau iaith at ddefnydd staff a rheolwyr llinell. Mae'r ddogfen yn mynd law yn llaw â chynllun rheoli ac adolygu perfformiad staff.

Mae pob aelod o staff newydd yn mynychu cwrs cynefino gorfodol sy'n cynnwys cyflwyniad am y Gymraeg, y safonau a iaith Gwaith.

6.5.2. Hyfforddiant anffurfiol

Cynhelir clybiau sgwrsio anffurfiol i ddysgwyr a staff rhugl e.e. Clwb Pontio Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Mae creu cyfleoedd i staff sy'n gweithio shifftiau'n her, felly rydym hefyd yn treialu sesiynau bore'r Clwb Pontio yng Nghaerdydd. Ym mis Ionawr 2019, lanswyd Clwb Clonc sef cyfle i staff ar bob lefel iaith yn Sain Ffagan ddod at ei gilydd unwaith y mis. Mae gennym gynllun Cyfaill Cymraeg lle mae dysgwr a siaradwr rhugl yn gallu trefnu i gwrdd ar eu liwt eu hunain. Yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, mae côr y staff yn cwrdd yn rheolaidd ac yn perfformio ar gais gydol y flwyddyn, cenir caneuon Cymraeg a Saesneg sy'n gyfle gwych i bawb gael canu caneuon Cymraeg waeth beth fo'u lefel iaith.

6.6. Recriwtio

Caiff anghenion iaith pob swydd newydd eu hasesu trwy ddefnyddio pecyn asesu Cydbwyllgor Addysg Cymru, sy'n seiliedig ar yr erfyn diagnostig. Mae pob swydd yn cael ei hysbysebu yn Gymraeg a Saesneg a chroesewir ceisiadau yn Gymraeg neu Saesneg. Nid yw ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. Darperir pob ffurflen gais, deunydd esboniadol, gwybodaeth am ein proses gyfweled a disgrifiadau swydd yn Gymraeg.

Mae lle i unigolion nodi eu sgiliau iaith ar y ffurflen gais a hefyd a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg mewn cyfweiliad.

Yn unol â safon 148 (Cadw cofnodion), hysbysebwyd swyddi newydd a gwag fel a ganlyn:

Lefel iaith angenrheidiol	Nifer y swyddi
Sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol	59
Angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd	0
Sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol	71
Sgiliau yn y Gymraeg ddim yn angenrheidiol	0

7. Cadw cofnodion (safonau 141-148 a safonau atodol 167-168)

7.1. Asesu sgiliau iaith staff

Gall staff ddewis cofnodi a ydynt yn siarad Cymraeg (ac ieithoedd eraill) neu yn eu dysgu ar eu proffil ar y Fewnwyd. Fodd bynnag at ddibenion cynllunio iaith Gymraeg y gweithlu, cyflwynwyd system o hunan-gofnodi lefel sgil Cymraeg ar ein system adnoddau dynol electronig, CIPHR. Mae'r lefelau a gofnodir yn gyson â Chwricwlwm Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion, sydd hefyd yn cyd-fynd â'r Fframwaith Gyfeirio Ewropeaidd Gyffredin ar gyfer ieithoedd (sef CEFR, *Common European Framework of Reference for Languages*).

Cymwysterau CBAC/CDCG	Fframwaith CEFR
Mynediad	A1
Sylfaen	A2
Canolradd	B1
Uwch	B2
Hyfedredd	C1

Yn unol â safon 145, dyma nifer y staff a chanddynt sgiliau Cymraeg ar ddiwedd 2018/19:

Lefel iaith	Nifer y staff	Canran y staff
Mynediad A1	72	10.7%
Sylfaen A2	28	4.2%
Canolradd B1	39	5.8%
Uwch B2	46	6.8%
Hyfedredd C1*	172	25.5%
Dim	279	41.4%
Heb gwblhau	38	5.6%
Cyfanswm	674	100.00%

*Cynhwysir nifer y siaradwyr rhugl yn y nifer hwn, p'un a ydynt wedi dysgu Cymraeg neu yn siaradwyr mamiaith.

Mae gan dros hanner ein gweithlu beth dealltwriaeth ieithyddol bellach. Gweler o gymharu â chanlyniadau 2017/18, fod 13 aelod o staff ychwanegol ar lefel Mynediad, 2 ar lefel Canolradd ac 11 ar lefel Hyfedredd.

7.2. Cyrsiau hyfforddi

Yn unol â safon 146, dyma nifer a chanran y staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennym yn Gymraeg yn 2018/19:

Cwrs	Nifer a fynychodd y cwrs Cymraeg	Nifer a fynychodd y cwrs Saesneg	Canran a fynychodd y cwrs yn Gymraeg
Urddas yn y Gweithle	29	46	38.6%
Rheoli Straen a Gwytnwch Emosiynol	30	35	46.2%
GDPR Diogelu Data (e-ddysgu)	15	482	3%

Gweithiwyd gyda chwmni Interactive Learning Solutions i greu fersiwn Gymraeg o'u hyfforddiant Urddas yn y Gweithle. Cafwyd adborth hynod bositif gan staff am y cyrsiau Rheoli Straen a Gwytnwch Emosiynol a gynhaliwyd yn Gymraeg.

Cynhaliwyd hyfforddiant Cymraeg ar gyfer y We i 12 aelod o staff dan arweiniad y Dr Llion Jones gyda'r nod o gynyddu sgiliau iaith y gweithlu yn eu defnydd o'r wefan a'r cyfryngau cymdeithasol.

Nid ydym wedi cynnig cyrsiau recriwtio a chyfweld na gweithdrefnau cwyno a disgyblu i staff (yn Gymraeg nac yn Saesneg) eleni. Os byddwn yn cynnig y cyrsiau hyn mae gennym yr adnoddau mewnol i'w cynnal yn y ddwy iaith.

Mae canfod darparwyr achrededig Cymraeg yn gallu bod yn her mewn rhai meysydd. Byddwn yn parhau i gydweithio â chyrrff ar draws y gwahanol sectorau ble bynnag posibl i ganfod a chomisiynu hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg.

7.3. Datrys cwynion

7.3.1. Cwynion gan y cyhoedd

Gall y cyhoedd gyflwyno cwyn, sylw neu adborth ar ein gwefan neu yn unrhyw un o'n safleoedd. Mae pob sylw gan y cyhoedd ynghylch y Gymraeg yn cael ei anfon at Gydlynnydd y Gymraeg sy'n cadw cofnod ohonynt ac yn ymateb yn ôl y galw, yn unol â'r amserlen gorfforaethol sef cydnabyddiaeth o leiaf o fewn 7 diwrnod gwaith ac ateb llawn o fewn 14 diwrnod gwaith. Mae copi o drefn gwyno'r Amgueddfa ar ein gwefan ac ym mhob derbynfa hefyd.

Cafwyd tair cwyn ynghylch cydymffurfiaeth â'r safonau iaith yn 2018/19 yn ymwneud â dylunio dwyieithog, gwasanaeth gan drydydd parti a gwasanaeth yn un o'n siopau.

Rydym yn cadw cofnod o'r camau yr ydym wedi eu cymryd i ddatrys cwynion mewn perthynas â'r Gymraeg, yn eu plith llunio egwyddorion dylunio dwyieithog cyfoes yn seiliedig ar ein gwaith arloesol ar broject ailddatblygu Sain Ffagan a chanllawiau'r Comisiynydd Iaith; atgyfnerthu'r berthynas rhwng Amgueddfa Cymru a'r trydydd parti dan sylw; a pharhau i gydweithio ar hyfforddiant ac ymwybyddiaeth iaith.

7.3.2. Cwynion at y Comisiynydd Iaith ac ymchwiliadau gan y Comisiynydd Iaith

Ym mis Tachwedd 2017, derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ynghylch methiant honedig i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn ymwneud â gweithdy i blant a gynhaliwyd yn uniaith Saesneg, ynghyd â ffilmiau Saesneg i blant gydag is-deitlau Cymraeg ar ipads yn yr Amgueddfa. Cynlluniwyd y gweithdy gan hwylusydd mewnol yr Amgueddfa i fod yn weithdy cwbl ddwyieithog, gyda'r holl adnoddau ac arweiniad a ddarparwyd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Oherwydd salwch, nid oedd yr aelod dwyieithog o staff penodedig ar gael i gynnal y gweithdy ar y diwrnod a chafodd ei gynnal gan aelod o staff arall oedd ddim yn ddwyieithog. Heriwyd y gŵyn am y ffilmiau Saesneg gan eu bod yn ffilmiau gan drydydd parti.

Cynhaliwyd ymchwiliad gan y Comisiynydd Iaith dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn ystod yr ymchwiliad, derbyniwyd ein her ynghylch y ffilmiau. Ar 19 Hydref 2018, dyfarnodd Comisiynydd y Gymraeg bod Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â Safon 32 a Safon 80 mewn perthynas â'r gweithdy, a phennwyd camau gweithredu ac amserlen. Rhoddwyd nifer o gamau gweithredu ar waith ers derbyn y gŵyn yn 2017 gan gynnwys newidiadau i strwythur staffio hwyluswyr; cyhoeddi canllawiau cydymffurfio i staff (gan gynnwys trefniadau newydd os bydd aelod o staff yn sâl); adolygu ein rhaglen gyhoeddus ac addasu ein dulliau hysbysebu digwyddiadau a darpariaeth addysg.

Cyflwynwyd ein tystiolaeth o weithredu yn unol â'r amserlen ar 1 Chwefror 2019. Nid ydym wedi derbyn gwybodaeth bellach gan y Comisiynydd.

8. Casgliad

Rydym wedi gwneud cynnydd yn y pum dosbarth eleni. Mae partneriaethau allanol a chydweithio ar draws ein hamgueddfeydd yn ein cynorthwyo nid yn unig i sicrhau cydymffurfiaeth ond hefyd i ddatblygu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y corff ac yn ein cymunedau. Mae'r gwaith o atgyfnerthu gweithdrefnau a pharhau i osod y seilwaith sydd yn ein galluogi i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau yn parhau, ond mae'n amlwg fod Amgueddfa Cymru yn gartref naturiol i'r Gymraeg ffynnu, ymhlith ein staff a'n hymwelwyr, ein defnyddwyr a'n partneriaid.